# Cynllunio ar gyfer cynyddu mynediad i ysgolion i ddisgyblion ag anableddau

## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 235/2018
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018
Yn disodli dogfen ganllawiau: rhif 15/2004

# Cynllunio ar gyfer cynyddu mynediad i ysgolion i ddisgyblion ag anableddau

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at awdurdodau lleol a chyrff cyfrifol. |
| **Trosolwg** | Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn sydd wedi'u diweddaru o dan baragraff 2(4) o atodlen 10 o 'Ddeddf Cydraddoldeb' 2010 ('Y Ddeddf'). Mae'r ddogfen hon yn disodli Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 15/2004 "*Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau*" (2004). |
| **Camau i'w cymryd** | Dylai'r canllawiau gael eu defnyddio wrth baratoi strategaethau mynediad a chynlluniau hygyrchedd a gallant gynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff cyfrifol i fodloni eu dyletswyddau statudol. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Rachel De Benedictis<br>Cynllunio Busnes a Llywodraethiant mewn Addysg<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 03000 257672<br>e-bost: 21stcenturyschools@llyw.cymru |
| **Copiau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.21stcenturyschools.org/?skip=1&lang=cy |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau* (2004) |

© Hawlfraint y Goron 2018 ISBN digidol 978 1 78937 077 5 WG34690

# Cynnwys


1. Diben y canllawiau a’r cefndir 4
2. Cydraddoldeb, ystyr anabledd a gwahaniaethu 7
3. Strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd – trosolwg 10
4. Paratoi strategaethau a chynlluniau hygyrchedd 12
5. Y tair dyletswydd cynllunio: cynyddu mynediad i addysg ysgol i ddisgyblion ag anableddau 19
6. Ystyriaethau ar gyfer y cynllun hygyrchedd 27

Atodiad A: Deddfwriaeth berthnasol 31

Atodiad B: Nodi rhwystrau – enghraifft o gwestiynau i’w hystyried wrth baratoi cynllun hygyrchedd 32

# 1. Diben y canllawiau a'r cefndir

Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn sydd wedi'u diweddaru o dan baragraff 2(4) o atodlen 10 o 'Ddeddf Cydraddoldeb' 2010 ('Y Ddeddf'). Mae'r ddogfen hon yn disodli Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 15/2004 "Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau" ddyddiedig Mawrth 2004.

Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar baratoi strategaethau mynediad a chynlluniau hygyrchedd sy'n helpu i sicrhau cynhwysiant llawn disgyblion ac anableddau mewn amgylchedd ysgol. Gall gynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff cyfrifol i fodloni eu dyletswyddau statudol o dan Atodlen 10 o'r Ddeddf sy'n darparu bod

i) a local authority **must, in relation to a school for which it is a responsible authority,** prepare, implement, review and update written accessibility strategies

ii) the responsible body for a school **must** prepare, implement, review and update written accessibility plans.

Yn benodol mae'r canllawiau hyn yn darparu cyngor ar:

- gynnwys strategaeth mynediad a chynllun hygyrchedd
- y ffurf y dylid cynhyrchu cynllun/strategaeth hygyrchedd
- y bobl y dylid cysylltu â hwy wrth baratoi cynllun /strategaeth hygyrchedd

Diddymwyd Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd Disability Discrimination Act 1995 ("y DGSA") a'i disodli gan y Ddeddf. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cysoni cyfraith gwahaniaethu ac yn darparu fframwaith deddfwriaethol wedi'i ddiweddaru, sy'n symlach ac yn gryfach i warchod hawliau unigolion ac i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae wedi bod yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol ac ysgolion i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion anabl ers 2002, yn wreiddiol o dan y DGSA, ac ers mis Hydref 2010, o dan y Ddeddf. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi paratoi canllaw, Addasiadau Rhesymol ar gyfer Disgyblion ag Anableddau[1], a fydd yn cynorthwyo arweinwyr ysgolion ac awdurdodau lleol i ddeall a chydymffurfio â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol. Hefyd, bydd yn helpu disgyblion ag anableddau a'u rhieni i ddeall y ddyletswydd.

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar yr angen i awdurdodau lleol a chyrff cyfrifol baratoi strategaethau a chynlluniau a'u gweithredu er mwyn sicrhau bod yr ysgol a gweithgareddau'r ysgol yn hygyrch i ddisgyblion ag anableddau. Rhaid i ysgolion ystyried hefyd sut i sicrhau cydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf. Dylech droi at y ddogfen **"Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru:"**[2] a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gan roi ystyriaeth bellach i anghenion pawb sy'n defnyddio'r ysgol a'i gwasanaethau, boed yn athrawon yn rhieni/gofalwyr a'r sawl sy'n defnyddio'r cyfleusterau cymunedol.

---

[1] http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/publication_pdf/Reasonable%20adjustments%20for%20disabled%20pupils_0.pdf

[2] https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/what_equality_law_means_for_you_as_an_education_provider_schools_welsh_t_0_1.pdf

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc ymgysylltu i'r graddau llawnaf posibl â'u haddysg a'u datblygiad.

Mae dysgwyr ag anableddau'n wynebu heriau penodol sy'n eu rhoi mewn perygl o gael eu hallgáu o addysg, o gyfleoedd gwaith yn y dyfodol ac o fwynhau bywyd cymdeithasol normal. Mae rhwystrau penodol yn cynnwys cyfyngiadau mynediad corfforol, ac o ran gweld a chlywed ac anawsterau wrth ddefnyddio adnoddau ac offer TG addas. Er hynny, yn reit aml, agweddau ac ymddygiadau anhyblyg, hirsefydlog a gwahaniaethol o bosibl yw'r her fwyaf.

- Cred 38% o bobl fod pobl ag anableddau yn faich ar gymdeithas
- Dywedodd 45% o bobl ag anableddau iddynt gael problemau yn yr ysgol oherwydd eu nam
- Cyfaddefodd bron dwy ran o dair o bobl (65%) eu bod yn osgoi pobl anabl oherwydd nad ydyn nhw'n gwybod sut i ymddwyn yn eu cwmni
- Tybia mwy na hanner (52%) mai mater corfforol yn unig yw anableddau
- Mae mwy na thraean (34%) yn credu nad yw colli clyw yn anabledd
- Pobl a nam ar y clyw neu'r llygaid yw'r cyfranogwyr prinnaf mewn chwaraeon, ac mae 72.1% o bobl anabl heb fod yn cymryd rhan o gwbl mewn gweithgarwch corfforol
- Mae 18% o boblogaeth y DU yn anabl a mwyafrif yr anableddau yn anweladwy
- Mae 6% o'r boblogaeth o dan 16 oed yn anabl. Yn Lloegr mae 83% o'r holl blant anabl yn mynychu ysgol prif ffrwd.
- Mae oedolion ag anableddau ddwywaith yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau ffurfiol nag oedolion heb anableddau - 26% a 12% yn eu trefn
- Yn 26 oed, mae pobl ag anableddau bron bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith neu allan o waith o'u hanfodd na phobl heb anableddau.
- Dim ond 20% o oedolion ag anableddau dysgu sy'n hysbys i'r gwasanaethau anableddau dysgu
- Mae gan un plentyn o bob deg rhwng 1 a 15 oed anhwylder iechyd meddwl
- Mae cyfraddau cyflogaeth graddedigion yn llawer is i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn

http://www.efds.co.uk/resources/facts_and_statistics

**Trosolwg o ddeddfwriaeth addysg**
Nid yw'r canllawiau hyn yn rhoi adroddiad manwl o'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag addysg ysgolion ac anabledd. Darperir crynodeb o ddeddfwriaeth sy'n benodol berthnasol yn Atodiad A ond dylid troi at yr holl ddeddfwriaeth wreiddiol ac unrhyw gyngor atodol pan fo angen mwy o fanylion.

**Gwybodaeth ychwanegol**
Mae gwybodaeth ychwanegol am gynllunio hygyrchedd mewn addysg a'r Ddeddf ar gael ar

**Wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

http://www.equalityhumanrights.com/your-rights/equal-rights/disability/disability-in-education

a **Gwefan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

http://www.wlga.gov.uk/education-and-equality

**Single Page Summary**

The Welsh Government has adopted the Social Model of Disability which recognises that people with impairments are disabled by the barriers created by society, and that the guiding principles of policy should be:

- to remove these barriers and create an enabling society, and
- to promote the rights and full inclusion of disabled people.

These barriers include people's attitudes to disability, as well as physical and organisational barriers. This guidance is meant to help schools and local authorities identify and address the barriers which can prevent disabled children and young people having equal access to education, and ensure they have the same opportunities as their peers to develop and achieve their potential.

**Improving access to education for disabled children means considering**

- the curriculum and how it is taught;
- the accessibility of school buildings and their surroundings, school activities including school trips and transport; and
- information and activities provided by schools and how easy it is for disabled pupils and/or their disabled parents to understand.

These are known as the 'three planning duties' and are a statutory requirement of Schedule 10 to 'the Act.

**At least every three years,** each local authority must prepare, implement, review and update **a written accessibility strategy** which identifies how strategic actions will improve accessibility to education for disabled pupils against each of the three planning duties.

**At least every three years,** the responsible body for a school must prepare, implement, review and update **a written accessibility plan** which identifies how specific improvements will improve accessibility to education against the three planning duties for existing and prospective disabled pupils.

In preparing accessibility strategies and plans, full and effective consultation must be undertaken to identify appropriate improvements. The consultation must normally ensure that the views of disabled pupils and their parents/carers and appropriate professionals are taken into account.

Reasonable adjustments to cater for future disabled pupils must be embedded in accessibility strategies and plans – there is a need to plan ahead and continuously improve irrespective of whether or not disabled pupils currently attend the schools concerned.

# 2. Cydraddoldeb, ystyr anabledd a gwahaniaethu

Sefydlodd 'Y Ddeddf' un Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus. Mae'n nodi rhai nodweddion gwarchodedig penodol - hil, anabledd, rhyw, oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd. Wrth gyflawni eu swyddogaethau, mae'n ofynnol i sefydliadau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r cyfryw nodweddion ac i'r anghenion canlynol:

- Dileu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ymhlith pobl sydd â nodwedd warchodedig a phobl sydd heb
- Meithrin perthynas dda - Foster good relations - ymhlith pobl sydd â nodwedd warchodedig a phobl sydd heb

I gael rhagor o wybodaeth am sut y dylid ystyried y ddyletswydd hon a'r Ddeddf mewn cyd-destun addysgol, gweler dogfen Cydraddoldeb a Hawliau Dynol **"Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru"**[3].

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn berthnasol i bob agwedd ar redeg ysgol yn cynnwys cyflogi athrawon. Fodd bynnag, nid yw nodweddion gwarchodedig ynghylch oedran a phartneriaeth sifil/priodas yn berthnasol i weithrediad ysgol cyn belled â'u bod yn uniongyrchol gysylltiedig â disgyblion.

At ddibenion galluogi gwell perfformiad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149(1) o'r Ddeddf, cyflwynodd Gweinidogion Cymru baragraff 2(4) o atodlen 10 o'r 'Ddeddf' 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011. Mae'r rheoliadau hyn yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau perthnasol Cymru (yn cynnwys awdurdodau lleol).

## 2.1 Ystyr anabledd

Ystyr y term 'disgybl' yw plentyn neu berson ifanc o ba oed bynnag y darperir neu y mae'n ofynnol darparu addysg ar ei gyfer.

Yn unol ag adran 6 o'r Ddeddf, mae gan berson (P) anabledd os oes gan:

(a) P nam corfforol neu feddyliol, ***a bod***
(b) y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu P i gyflawni gweithgareddau arferol dydd i ddydd.
Mae diffiniad anabledd yn cwmpasu namau corfforol, sy'n cynnwys namau o ran symud a namau ar y synhwyrau. Hefyd mae'n cwmpasu namau meddyliol sy'n cynnwys anawsterau dysgu ac unrhyw nas sy'n deillio o salwch meddwl. Yn yr achos hwnnw, nid oes rhaid i'r cyflwr hwnnw fod yn 'amlwg-gydnabyddedig yn glinigol' ond rhaid iddo gael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau dydd- i ddydd. Fel y cyfryw,

---

3 https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/what_equality_law_means_for_you_as_an_education_provider_schools_welsh_t_0_1.pdf

cyfrifir canser, feirws imiwnoddiffygiant dynol (HIV) a sglerosis ymledol yn anabledd, yn ogystal ag anffurfiant difrifol (Deddf Cydraddoldeb, Atodlen 1, paragraffau 3 a 6).

Hefyd, mae anabledd yn cwmpasu'r sawl sydd â chyflwr cynyddol, megis nychdod cyhyrol, sy'n achosi i rywun gael nam a fydd yn y dyfodol yn cael effaith andwyol ar ei allu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd (Deddf Cydraddoldeb, Atodlen 1, paragraff 8).

Rhaid i effaith y nam fod yn sylweddol a rhaid iddo gael effaith andwyol sy'n fwy na chael mân effaith, oherwydd nid yw cael nam yn ei hun yn golygu bod person yn cael ei wneud yn anabl yn ei sgil.

**Er enghraifft**, gall plentyn fod ag asthma neu ddiabetes ond hwyrach nad yw'r cyflwr yn ddigon drwg i achosi effaith sylweddol ar allu'r plentyn i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd. Yn yr achos hwn, ni ystyrir y plentyn yn anabl.

Dylid trin nam fel rhywbeth sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar allu'r person da sylw os byddai'n debygol o gael effaith andwyol sylweddol oni bai bod camau yn cael eu cymryd i oresgyn y sefyllfa.

**Er enghraifft**, hwyrach bod rhywun â nam sylweddol ar y clyw yn gallu clywed yn reit dda gyda chymorth teclyn clyw ond hebddo, prin y gall glywed o gwbl. Ystyrir y person hwnnw'n anabl. **Fodd bynnag,** ystyrir nad yw pobl â golwg gwael y gellir ei gywiro'n llawn â sbectol neu lensys cyffwrdd yn anabl oherwydd y nam ar eu llygaid (Deddf Cydraddoldeb, Atodlen 1, paragraff 5).

## 2.2 Effeithiau hirdymor

Gwelir ystyr 'effeithiau hirdymor' yn Atodlen 1 o'r Ddeddf.

Bydd effaith nam yn hirdymor os yw:

(a) wedi para am o leiaf 12 mis, **neu**
(b) yn debygol o bara am o leiaf 12 mis, **neu**
(c) yn debygol o bara am weddill oes y person dan sylw.

## 2.3 Addasiadau rhesymol

Mae'n ddyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion ag anableddau. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol gymryd camau cadarnhaol i sicrhau y gall disgyblion ag anableddau gymryd rhan lawn yn yr addysg a ddarperir gan yr ysgol a mwynhau buddion eraill, cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol.
Gellir gweld arweiniad ar gyfer rhoi hyn ar waith yn ymarferol mewn ysgolion ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [4]

[4] http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/publication_pdf/Reasonable%20adjustments%20for%20disabled%20pupils_0.pdf
[6] https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/reasonable-adjustments-disabled-pupils

## 2.4 Gwahaniaethu

Gall gwahaniaethu fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd yn erbyn disgybl ag anableddau pan fo'r cyfryw ddisgybli ag anableddau yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei nam neu anabledd.

| |
|---|
| Gwahaniaethu uniongyrchol fyddai achos lle byddai disgybl â HIV neu anffurfiant difrifol yn cael gwrthod mynediad i ysgol ar sail y nodwedd honno. |

Fodd bynnag, nid yw'n wahaniaethu os yw disgybl anabl yn cael ei drin yn fwy ffafriol na disgybl nad yw'n anabl.

| |
|---|
| Er enghraifft, gellir rhoi amser ychwanegol i ddisgybl â dyslecsia i gwblhau arholiad ysgrifenedig a ni ellir ystyried hynny yn wahaniaethu. |

Gall disgyblion ag anableddau brofi gwahaniaethu anuniongyrchol os yw polisi penodol, pan gaiff ei ddefnyddio, yn peri anfantais iddyn nhw (neu y byddai, pe defnyddid y polisi yn peri anfantais iddyn nhw).

| |
|---|
| Mae polisi ysgol arbennig sy'n darparu ar gyfer addysg disgyblion ag anableddau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion sy'n mynd ar deithiau preswyl fod yn gwbl ymataliol. Mae'r polisi yn peri bod gwahaniaethu yn digwydd yn erbyn pobl nad ydynt yn gwbl ymataliol ac mae hyn yn eu hallgáu o deithiau preswyl. Os yw'r rheswm dros fod yn gwbl ymataliol yn deillio o anabledd, byddai hyn yn enghraifft o wahaniaethu anuniongyrchol ar sail anabledd. Caniateir gwahaniaethu'n anuniongyrchol os gellir cyfiawnhau'n wrthrychol y gwahaniaethu ond mae'n amheus y gallai'r ysgol gyfiawnhau'r cyfryw gam. |

Mae gwahaniaethu'n digwydd pan fo disgybl ag anabledd yn cael ei drin yn llai ffafriol, nid oherwydd yr anabledd ei hun, ond am reswm yn ymwneud ag anabledd y plentyn ac na ellir cyfiawnhau'r driniaeth honno.

| |
|---|
| Dywedir wrth ddisgybl â pharlys yr ymennydd sy'n defnyddio cadair olwyn na all fynd ar daith ysgol i'r theatr leol sy'n perfformio drama y mae hithau'n ei hastudio ar hyn o bryd yn Saesneg, am nad yw'r theatr yn hygyrch i gadair olwyn. Gŵyr y disgybl a'i rhieni y perfformir yr un ddrama mewn dinas gyfagos mewn theatr sy'n hygyrch i gadair olwyn. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn ystyried yr opsiwn hwn. Mae hyn yn debygol o fod yn achos o wahaniaethu sy'n deillio o anabledd |

# 3. Strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd – trosolwg

Mae’r Bennod hon yn rhoi trosolwg o ofynion y Ddeddf o ran y gofynion cyfreithiol:

a) I awdurdodau lleol baratoi, gweithredu a diweddaru strategaethau hygyrchedd ar gyfer pob ysgol y mae ganddyn nhw gyfrifoldeb statudol amdanynt

b) I gorff cyfrifol unrhyw ysgol yng Nghymru baratoi, gweithredu a diweddaru cynlluniau hygyrchedd

Sefydlwyd gofyniad Cynlluniau a Strategaethau Hygyrchedd o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae’r gofyniad hwn yn parhau o dan y Ddeddf.

Mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn darparu fel rhan o arolygiad Estyn fod ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hasesu. Golyga hyn os na chaiff mesurau cydraddoldeb eu gweithredu’n effeithiol, bydd cyfyngiad ar radd gyffredinol yr arolwg.

## 3.1 Strategaethau hygyrchedd

Yr awdurdod lleol yw’r corff cyfrifol am baratoi strategaeth hygyrchedd i gwmpasu’r holl ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth yn yr ardal. Wrth baratoi a gweithredu eu strategaethau hygyrchedd, mae angen i awdurdodau lleol gydlynu a chydweithio ag asiantaethau eraill megis y gwasanaethau cymdeithasol , Byrddau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, gwasanaethau ieuenctid, a sefydliadau’r trydydd sector. Hefyd, mae’n bwysig ymgynghori â disgyblion, (nid dim ond disgyblion ag anableddau), rhieni/gofalwyr, a staff addysgu. Mae’r gofyniad hwn am ymgynghori ehangach yn adlewyrchu’r gofyniad i’r strategaeth hygyrchedd ganfod anghenion y disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol.

## 3.2 Cynlluniau hygyrchedd

Rhaid i gynlluniau hygyrchedd gael eu paratoi gan bob ysgol unigol a chyfeirio atynt yn benodol. I’r holl ysgolion a gynhelir, y corff cyfrifol am baratoi cynllun hygyrchedd yw’r awdurdod lleol. I Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, y corff cyfrifol yw’r Corff Llywodraethu. I ysgol annibynnol, y perchennog sy’n gyfrifol. Mae’r gofyniad i baratoi cynlluniau hygyrchedd yn cynnwys meithrinfeydd cyn ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

## 3.3 Y tair dyletswydd cynllunio

Rhaid i strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd nodi fel a ganlyn:

- Sut bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cynyddu’r ansawdd a’r graddau y gall disgyblion ag anableddau gymryd rhan lawn yn y cwricwlwm, yn cynnwys gweithgareddau y tu allan i’r ysgol ac ar ôl yr ysgol? (Erthyglau 23 a 29 o CCUHP)
- Pa welliannau amgylcheddol ffisegol fydd angen i awdurdodau lleol ac ysgolion eu gwneud er mwyn hyrwyddo i’r eithaf addysg cyfleusterau manteisiol a gwasanaethau i ddisgyblion ag anableddau? (Erthyglau 6 a 28 o CCUHP)
- Sut bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn gwella’r ddarpariaeth o wybodaeth hygyrch i ddisgyblion ag anableddau? (Erthyglau 2, 4 a 13 o CCUHP).
- Sut mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau (Erthygl 12 o CCUHP).

Gelwir y rhain yn dair dyletswydd cynllunio.

Rhaid i strategaethau a chynlluniau hygyrchedd fod fel a ganlyn:

- yn ysgrifenedig;
- am gyfnod penodedig a nodir;
- yn weithredol;
- gael eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen;
- bod yn glir o ran dyrannu adnodau i'w gwireddu;
- fod ar gael i Weinidogion Cymru os gofynnir amdanynt.

Wrth baratoi neu gyflawni adolygiad neu ddiwygiad o strategaeth neu gynllun hygyrchedd, rhaid rhoi sylw i unrhyw ganllawiau, gan gynnwys y canllawiau hyn a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Rhaid paratoi, gweithredu, gwerthuso, adolygu ac ailgyhoeddi strategaethau a chynlluniau hygyrchedd bob tair blynedd a rhaid ystyried pob agwedd ar addysg a gwasanaethau cysylltiedig a ddarperir gan ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys y cwricwlwm ond hefyd, amser egwyl, amser cinio, chwaraeon yr ysgol, gweithgareddau estynnol y cwricwlwm, a phob agwedd ar fynychu ysgol. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys meithrinfeydd cyn ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

Lle na chyflawnwyd y ddyletswydd yn ddigonol neu'n foddhaol, mae Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn rhoi hawl i blant a phobl ifanc gychwyn achos cyfreithiol yn y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru eu hunain. Hefyd mae modd iddyn nhw gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion. Gall Gweinidogion Cymru fynnu bod yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf neu'n cydymffurfio ag unrhyw orchymyn a roddir gan y Tribiwnlys os yw'r hawliad yn llwyddiannus. Gweler dogfen Llywodraeth Cymru **"Hawliau plant i wneud apêl neu hawliad i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru - canllawiau statudol i awdurdodau lleol "** [5] am ragor o wybodaeth.

[5] http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/childrens-rights-to-appeal-and-make-a-claim-to-the-sentw/?skip=1&lang=cy

# 4. Paratoi strategaethau a chynlluniau hygyrchedd

Awdurdodau Lleol sy'n paratoi strategaethau hygyrchedd gan ystyried materion strategol cyffredinol sy'n effeithio ar yr holl ysgolion yn eu hardal sy'n derbyn cyllid cyhoeddus.

Y corff cyfrifol sy'n paratoi cynlluniau hygyrchedd ar gyfer pob ysgol unigol ac yn nodi camau gweithredu penodol sy'n benodol berthnasol i'r ysgol honno.

## 4.1 Strategaethau hygyrchedd

Dylai strategaeth hygyrchedd gwmpasu'r holl ysgolion, meithrinfeydd a chanolfannau cyn ysgol y mae'r ALI yn gyfrifol amdanynt. Dylai gynnwys darparu dosbarthiadau meithrin mewn canolfannau awdurdodau lleol nad ydynt yn ysgolion, megis canolfannau cymunedol, ac unrhyw addysg a ddarperir gan yr awdurdod ar safleoedd Teithwyr/Sipsiwn neu Ysgolion Coedwig, er enghraifft. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol hefyd i weithgareddau y tu allani'r ysgol a gwasanaethau a ddarperir ar safle'r ysgol, hyd yn oed os mai darparwr gwirfoddol sy'n gyfrifol am y cyfrwy wasanaethau. Pryd bynnag y bydd y cyfarwyddyd hwn yn cyfeirio at ysgolion, dylid ei ddehongli fel pe bai'n cynnwys yr holl sefyllfaoedd hyn. Disgwylir, os yw awdurdod lleol yn negodi contract gydag unrhyw ddarparwr o'r fath, y bydd yn sicrhau bod anghenion disgyblion ag anableddau yn cael eu diwallu i'r un graddau ag y gellid disgwyl mewn unrhyw sefydliad a gynhelir yn llawn. Gall ALI hefyd fod am gynnwys darpariaethau mewn perthynas â phlant sy'n derbyn addysg mewn lleoliadau ysbyty fodd bynnag nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol.

Dyletswydd cyrff cyfrifol, wrth ddrafftio eu strategaethau, yw penderfynu a ydynt am gynnwys eu gwelliannau o dan benawdau ar wahân neu benawdau cyfun, neu mewn unrhyw fodd arall. Er enghraifft, gellid rhoi manylion gwelliannau mewn perthynas â phob ysgol a fydd yn elwa ohonynt, gyda phennawd ar wahân ar gyfer mentrau'r awdurdod cyfan. Mae'r ddyletswydd gynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol fabwysiadu dull strategol er mwyn sicrhau bod disgyblion ag anableddau wedi cynyddu hygyrchedd i bob ysgol a gynhelir yn eu hardal. Os yw strategaeth hygyrchedd yn rhan o gynllun gwella cyffredinol ehangach, yna rhaid iddo fod yn glir, yn hawdd ei nodi ac yn hawdd ei ddidynnu fel strategaeth hygyrchedd o'r cynllun ehangach fel ei fod ar gael at ddibenion cyfeirio.

## 4.2 Cynlluniau hygyrchedd

Rhaid i'r corff sy'n gyfrifol am yr ysgol honno baratoi cynlluniau hygyrchedd ar sail ysgolion unigol gan ystyried amgylchiadau penodol yr ysgol unigol. Rhaid i'r cynllun ddangos sut y bydd anghenion disgyblion ag anableddau yn cael eu diwallu yn yr ysgol honno, a sut y llwyddir i sicrhau mwy a mwy o hygyrchedd i adeiladau'r ysgol, i'r cwricwlwm a'r wybodaeth a ddarperir gan yr ysgol.

## 4.3 Paratoi

Mae'r dulliau sydd eu hangen i baratoi naill ai strategaeth hygyrchedd neu gynllun hygyrchedd yn debyg iawn. Mae'r siart llif isod yn amlinellu'r cyfnodau wrth baratoi strategaethau hygyrchedd. Gellir defnyddio proses debyg ar sail ysgol unigol wrth baratoi cynllun hygyrchedd.

**Paratoi ac adolygu strategaethau a chynlluniau hygyrchedd**

Mae'r camau uchod yn dangos y cylch o ddatblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau a strategaethau hygyrchedd. **Nodir y camau a awgrymir ar gyfer pob cam isod.**

**Archwilio/Adolygu hygyrchedd** - adolygu canlyniadau strategaethau/cynlluniau. Nodi'r pethau sydd wedi gweithio a pham; y pethau nad oedd mor llwyddiannus a pham; a yw'r anghenion yn parhau. Nodi rhwystrau pellach i hygyrchedd. Lle nad oes strategaeth neu gynllun hygyrchedd ar gael, cynnal ymchwil i ganfod rhwystrau hygyrchedd blaenorol a hefyd nodi arferion gorau mwn ysgolion.

**Cysylltu â rhanddeiliaid** - ymgynghori â chroestoriad eang o ddarparwyr gwasanaeth, defnyddwyr a sefydliadau'r trydydd sector.

**Drafftio'r cynllun neu'r strategaeth newydd** - canolbwyntio ar ganlyniadau dymunol a blaenoriaethau gwella argymelledig er mwyn cyflawni'r canlyniadau a restrwyd fel a ganlyn: tymor byr - datryswyd o fewn y flwyddyn gyntaf tymor canol - dechreuwyd neu datryswyd o fewn y strategaeth hygyrchedd gyfredol hirdymor - dechreuwyd ac a ystyrir yn broses barhaus Dylid rhestru canlyniadau hefyd o safbwynt cost ac effaith.

**Gosod targedau** - Dylid defnyddio targedau CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, realistig, a werthusir ac a adolygir) i bennu pa ganlyniadau gaiff eu cyflawni a pha bryd. **Ymgynghori pellach /cwblhau'r strategaeth** - dylai'r ymgynghori fod mor eang â phosibl gan ddarparu gwybodaeth am y penderfyniadau drafftio a wnaed i ddilyn. Rhaid i'r ymgynghoriad alluogi'r sawl a effeithiwyd gan y strategaeth/cynllun hygyrchedd i roi eu safbwyntiau. Felly mae'n rhaid i'r broses ymgynghori fod yn gwbl hygyrch hefyd.

**Cyhoeddi** - rhaid i'r strategaeth hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd yr ysgol unigol fod ar gael i unrhyw un ar gais, mewn unrhyw fformat amgen y gofynnir amdano. Arfer da yw cyhoeddi'r strategaeth hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd yr ysgol unigol ar wefan yr awdurdod lleol (lle bo'n briodol) ac ar wefan yr ysgol unigol. Dylai fod yn glir i ddefnyddwyr sut i ddod o hyd i unrhyw strategaeth hygyrchedd unrhyw awdurdod lleol a sut i ddod o hyd i gynlluniau hygyrchedd ysgol unigol.

**Gweithredu -** rhaid cael tystiolaeth o weithredu'r strategaeth hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd yr ysgol unigol a chynnal adolygiad blynyddol (gweler isod) i nodi'r cynnydd a wnaed a'r rhwystrau sy'n parhau, ynghyd â'r dulliau o'u datrys.

**Adolygiad** - Cyfarfod adolygu blynyddol. Dylai fframwaith fod ar waith i werthuso llwyddiant y strategaeth a chynllunio mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

Wrth baratoi strategaethau a chynlluniau hygyrchedd, bydd yn ofynnol hefyd i awdurdodau lleol a chyrff cyfrifol ystyried unrhyw ddyletswyddau ychwanegol sy'n codi o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## 4.4 Grŵp cynllunio

Fel rheol bydd Awdurdodau Lleol yn sefydlu grŵp cynllunio i baratoi a datblygu'r strategaeth hygyrchedd. Yn aml arweinir y grŵp cynllunio gan swyddogion addysg a fydd o bosibl yn arwain y gwaith o ddatblygu'r strategaeth, ond rhaid i'w gylch gwaith fod yn ehangach. Rhaid i bob ALI benderfynu ar gyfansoddiad y grŵp cynllunio ac fel rheol gall y cyfranogwyr gynnwys - *fel lleiafswm*:

- swyddogion mynediad/swyddogion yng ngofal mynediad i bobl anabl ar draws yr awdurdod;
- swyddogion gwella ansawdd;
- cydlynwyr cyn-ysgol;
- seicolegwyr addysg;
- swyddogion o'r adrannau adeiladau/buddsoddi cyfalaf/ystadau;
- gwasanaethau gwaith cymdeithasol;
- penaethiaid ysgolion;
- gweithwyr iechyd proffesiynol lleol/therapyddion;
- gweithwyr proffesiynol cynllunio;
- grŵp/fforwm rhieni;
- cynrychiolwyr cymunedol, sefydliadau'r trydydd sector a phobl anabl yn ogystal â disgyblion heb anableddau.

Wrth gyflwyno cynllun hygyrchedd ysgol unigol, bydd angen sefydlu grŵp cynllunio sy'n adlewyrchu pob agwedd ar fywyd ysgol hefyd. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd grŵp cynllunio o'r fath yn llai o faint gyda'r pennaeth o bosibl yn aelod craidd, y llywodraethwr sy'n benodol gyfrifol am AAA, rhiant i blentyn ag anabledd a chynrychiolydd(wyr) o sefydliadau anabledd. Rhaid sicrhau arbenigedd perthnasol i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso'r cynllun a gall hyn gynnwys disgyblion ag anableddau, eu rhieni, athrawon arbenigol, sefydliadu anabledd a gwirfoddol lleol a swyddogion allweddol eraill yr awdurdod lleol. Bydd yr arbenigedd hwn yn hanfodol er mwyn nodi unrhyw rwystrau i lwyddiant y cynllun ac er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau.

Ni ddylid cyfyngu unrhyw archwiliad neu ymarfer adolygu i ystyriaethau mynediad corfforol yn unig ond *mae'n rhaid* cwmpasu pob un o'r tair dyletswydd cynllunio. Wrth fynd i'r afael â'r tair dyletswydd, dylai'r strategaeth a'r cynlluniau unigol edrych ar ystyriaethau ehangach. Gallai'r rhain gynnwys yr angen am hyfforddiant staff, yr angen am ofod/ystafelloedd ychwanegol i ddisgyblion gyda nodweddion gwarchodedig, y deunyddiau addysgu sydd ar gael mewn fformatau amgen, y defnydd o ddulliau dysgu cynhwysol a phrofiadau'r ysgol o ddisgyblion â nodweddion gwarchodedig a'i hagwedd tuag atynt.

Fel man cychwyn, ac yn arbennig os nad oes cynllun hygyrchedd cyfredol ar gael, bydd ateb y cwestiynau yn Atodiad B "Nodi Rhwystrau: enghraifft o gwestiynau i'w hystyried wrth baratoi cynllun hygyrchedd" yn helpu ysgol i ddeall ei sefyllfa bresennol a blaenoriaethu meysydd sydd angen sylw. Bydd chwiliadau ar y rhyngrwyd hefyd yn darparu enghreifftiau sy'n bodoli'n barod o gynlluniau hygyrchedd a all fod o gymorth ond mae amgylchiadau pob ysgol yn wahanol ac felly gall cynlluniau hygyrchedd unigol amrywio yn fawr iawn.

O ystyried y diffiniad estynedig o wahaniaethu ar sail anabledd a gyflwynwyd yn y Ddeddf, hwyrach y bydd cyrff cyfrifol am sicrhau bod ymwybyddiaeth gref ymhlith staff o'r materion hyn trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

## 4.5 Ymgynghori â phartïon allweddol â buddiant

Mae ymgynghori'n rhan bwysig o'r broses archwilio oherwydd mae'n rhoi tystiolaeth o farn ar hygyrchedd, effeithiolrwydd strategaethau a chynlluniau'r gorffennol, a dilysrwydd y dulliau newydd arfaethedig. Y partïon allweddol i'w hystyried yw'r darparwyr gwasanaeth, y defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau'r trydydd sector.

Dylai Awdurdodau Lleol gysylltu â staff yn eu hysgolion eu hunain yn cynnwys y rhai sy'n darparu addysg ar safleoedd Sipsiwn/Teithwyr. Dylai ymgyngoreion eraill gynnwys asiantaethau partner sy'n ymwneud â gwasanaethau eiddo, gwasanaethau gwaith cymdeithasol a Byrddau Iechyd Lleol, yn ogystal â gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig megis therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd ac iaith a fydd a chyfraniad gwerthfawr i'w wneud. Hwyrach y bydd ALl hefyd am gydweithio â Cholegau Addysg Bellach i wella mynediad disgyblion i'r cwricwlwm tra byddan nhw ar leoliadau cyswllt.

Rhaid i gyrff cyfrifol gysylltu â disgyblion ag anableddau a heb anableddau a'u rhieni, gan gymryd rôl ragweithiol i sicrhau bod yr amrywiaeth o anghenion cymorth ychwanegol ar gyfer plant yn cael eu diwallu. Rhaid nodi sectorau o'r gymuned sydd mewn perygl o gael eu hymyleiddio o'r broses ymgynghori prif ffrwd a'u cynnwys yn yr ystyriaethau. Dylai cyrff cyfrifol barhau i gynnwys plant a phobl ifanc yn y penderfyniadau i lywio datblygiad y strategaeth, gan gynnwys cynllunio ac adolygu. Dylai'r holl gyfranogi ddilyn y safonau a nodir yn ein Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

Dylai grwpiau cynllunio ystyried sut mae eu strategaeth/cynllun hygyrchedd yn mynd i'r afael â mynediad i blant ag anableddau i wasanaethau a ddarperir mewn ysgolion gan grwpiau eraill, megis grwpiau rhieni sy'n darparu gofal y tu allan i oriau ysgol ar sail wirfoddol.

## 4.6 Drafftio'r strategaeth neu'r cynllun

I ddrafftio'r *strategaeth hygyrchedd*, rhaid i'r grŵp cynllunio gael gwybodaeth am yr holl rwystrau neu'r rhwystrau posibl i gyfranogiad disgyblion ag anableddau. Gall y rhain fod yn rhwystrau mewn ysgolion unigol neu ddarpariaeth cyn ysgol, neu rwystrau i addysg a ddarperir i blant ar safleoedd Sipsiwn/Teithwyr, neu efallai eu bod yn feysydd cyffredin i'w gwella ym mhob ysgol neu fwyafrif yr ysgolion mewn awdurdod lleol. Wrth ddrafftio *cynllun hygyrchedd ysgol* unigol, dylid ystyried meysydd lle gellid gwella hygyrchedd cyffredinol yn ogystal â gwelliannau sydd eu hangen i hwyluso mynediad ar gyfer anghenion penodol disgybl cyfredol neu yn y dyfodol.

Isod, darperir templed o benawdau a awgrymir y gellid eu cynnwys mewn strategaeth neu gynllun hygyrchedd. Penawdau enghreifftiol yw'r rhain ac felly dim ond awgrym yw'r templed; gellir newid y fformat a'r cynnwys i beth bynnag mae'r corff cyfrifol yn teimlo sydd fwyaf addas. Dylai Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu Ysgolion hefyd ddarparu lefel briodol o dystiolaeth i ddangos sut maen nhw wedi ystyried yn ddigonol yr angen yn yr asesiad archwilio, yn cynnwys tystiolaeth gan blant a phobl ifanc.

**Cyflwyniad** Amlinelliad o ddiben y strategaeth/cynllun Gofynion deddfwriaethol a chanllawiau Cyfnod amser a gwmpesir

**Y Dull o ddatblygu'r strategaeth/cynllun** Gwybodaeth am aelodaeth y grŵp cynllunio Crynodeb o asesiad y corff cyfrifol o lefelau hygyrchedd cyfredol yr ystâd y mae'r ysgol yn gyfrifol amdani Crynodeb o'r cynnydd diweddar a wnaed, y gwelliannau a weithredwyd o ganlyniad i'r adolygiad a gwerthusiad o strategaethau/cynlluniau blaenorol Crynodeb o ymgynghoriadau/archwiliadau a wnaed i ddatblygu'r strategaeth/cynllun a sut y pennwyd y blaenoriaethau (os defnyddiwyd unrhyw feini prawf, dylid eu cynnwys) Dylai cyrff cyfrifol barhau i gynnwys plant a phobl ifanc wrth benderfynu er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu strategaethau, gan gynnwys cynllunio ac adolygu. Dylai pob cyfranogwr ddilyn y safonau a nodir yn ein Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Sut y cyflawnwyd cynhwysiant yn yr ymarfer ymgynghori Crynodeb o feysydd allweddol o hygyrchedd/ysgolion lle mae angen gwelliannau

**Cynyddu mynediad i'r cwricwlwm**
Rhestr o flaenoriaethau tymor byr, tymor canol a hirdymor ar gyfer gwelliannau i sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad i'r cwricwlwm llawn - ystyriwch gynnwys:
- hyfforddiant staff - yn enwedig athrawon dosbarth prif ffrwd
- darparu cymorthyddion dysgu a chynorthwywyr
- argaeledd ac addasrwydd teclynnau cymorth (e.e. gliniaduron,)
- darparu asesiadau
- targedau arholiadau i'w cyrraedd yn ystod cyfnod y strategaeth/cynllun (yn cynnwys amserlenni)

**Gwella mynediad i'r amgylchedd ffisegol** Rhestr o flaenoriaethau byrdymor, tymor canol a hirdymor ar gyfer gwella sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad i ysgolion - ystyriwch gynnwys:
- mynediad i holl adeiladau'r ysgol a mannau allanol i ddisgyblion â namau corfforol *a/neu* namau clywed *a/neu* namau gweld
- gwell mynediad i gyfleusterau chwaraeon
- cludiant ysgol
- gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol
- targedau i'w cyrraedd yn ystod cyfnod y strategaeth/cynllun (yn cynnwys amserlenni)
- nodi'r holl ailwampio a gynllunnir mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod gwelliannau i fynedfeydd yn cael eu cyflawni fel rhan o'r gwaith

**Gwella cyfathrebiadau a mynediad i wybodaeth am yr ysgol** Rhestr flaenoriaethau i'w gwella yn y tymor byr, y tymor canol a'r hirdymor sy'n sicrhau bod cyfathrebu effeithiol dwyffordd gyda disgyblion yn gwella. Ystyriwch y canlynol:
- gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth am yr ysgol/gwaith ysgol mewn fformatau gwahanol i ddisgyblion â namau ar eu llygaid, namau ar y clyw, ac anawsterau dysgu, gan sicrhau eu bod yn gofyn am safbwyntiau disgyblion ac yn eu hystyried
- sicrhau bod unrhyw gymorth i ddefnyddio technoleg/teclynnau cymorth cyfathrebu a ddarperir fel y gall disgyblion gymryd rhan a chyfleu eu safbwyntiau a'u gwaith i staff yr ysgol, yn cael eu cefnogi
- sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd yn ystod cyfnod y strategaeth/cynllun (a chynnwys amserlenni)

**Materion eraill**

- Er enghraifft, cynnwys cynlluniau i godi ymwybyddiaeth o anabledd ymhlith staff yr ysgol a'r disgyblion trwy weithgareddau ysgol.
- Nodi cysylltiadau ac egluro sut bydd cysylltiadau yn cael eu gwneud â mentrau eraill neu raglenni a chynlluniau.
- Nodi a chynnwys gofynion hygyrchedd mewn tendrau

**Casgliadau a chynllun gweithredu**

- y cynllun gweithredu arfaethedig ar gyfer pob blwyddyn, yn cynnwys manylion ynghylch pwy fydd yn gweithredu ar bob pwynt targed/cam gweithredu a nodi amserlen benodol;
- unrhyw adnoddau a gaiff eu neilltuo ar gyfer pob targed;
- y mesur perfformiad a gaiff ei ddefnyddio i werthuso a yw'r targed wedi'i gyrraedd. Dylid nodi effaith a pha mor hawdd oedd cyflawni'r broses.

Mae sicrhau ansawdd y cyflawni a'r ymroddiad a gafwyd yn hanfodol. Dylai ffocws y strategaeth hygyrchedd fod ar *sut* a *phryd* y llwyddir i gyflawni canlyniadau parhaol gan ddefnyddio fformat clir a chryno.

Nid yw'n ofynnol i ysgolion unigol baratoi strategaethau hygyrchedd. Fodd bynnag, disgwylir i gynlluniau hygyrchedd ysgolion unigol ystyried cynllun gwella yr awdurdod lleol a throi at strategaeth hygyrchedd yr awdurdod, lle bo'n briodol.

Yn yr un modd, bydd adroddiad ar ansawdd a safonau ysgol sy'n rhan annatod o hunanwerthusiad a'r broses o wella ysgol, yn adeiladu ar ran archwilio cynllun datblygu'r ysgol a bydd yn nodi sut mae'r ysgol yn cyflawni a'r hyn sydd angen i'r ysgol ei wneud nesaf. O ran ysgolion a gynhelir, gall y safonau hyn a'r adroddiadau ansawdd yn eu tro lywio strategaeth hygyrchedd yr awdurdod lleol.

Gwelir isod enghraifft o restr wirio ar gyfer y broses o baratoi a gweithredu strategaeth neu gynllun hygyrchedd.

| | |
|---|---|
| Sefydlu grŵp cynllunio/unigolion i gymryd rôl arweiniol wedi'i nodi | |
| Wedi penderfynu sut a ble y bydd y strategaeth/cynllun hygyrchedd yn cyfateb i fframweithiau cynllunio eraill a chynlluniau cyflawni gwasanaethau | |
| Wedi cynnal archwiliad o'r ddarpariaeth hygyrchedd gyfredol | |
| Ymgynghoriad cyntaf ag ysgol(ion) ac arbenigwyr wedi'i gyflawni | |
| Trafodaethau cynnar wedi'u cynnal ag asiantaethau a sefydliadau eraill ynghylch gwelliannau ar y cyd y gellid eu cyflawni | |
| Blaenoriaethau byr dymor, tymor canolig a hirdymor ar gyfer y tair dyletswydd cynllunio wedi'u nodi, ynghyd â'u heffaith a'u costau priodol; wedi drafftio strategaeth/cynllun hygyrchedd | |
| Ffynonellau cyllid wedi'u nodi ar gyfer datblygu mesurau a nodir yn y strategaeth/cynllun | |
| Nodau a thargedau wedi'u pennu ar gyfer cynnydd yn ystod cyfnod y strategaeth/cynllun | |
| Unrhyw ymgynghori pellach a gyflawnir gydag ystod eang o grwpiau â buddiant | |
| Trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer gweithredu'r strategaeth/cynllun | |
| Y strategaeth hygyrchedd wedi'i gorffen a'i gosod ar wefannau ysgolion a'r awdurdod lleol neu Cynllun hygyrchedd wedi'i orffen a'i osod ar wefan yr ysgol unigol ac ar wefan yr awdurdod lleol (os yw'n briodol) | |
| Cynnydd wedi'i fonitro a'i adolygu'n gyson, a'r strategaeth/cynllun wedi'i adolygu lle bo angen | |
| Gwerthuswyd y cynnydd tua diwedd cyfnod y strategaeth/cynllun er mwyn llywio'r blaenoriaethau ar gyfer y strategaeth/cynllun hygyrchedd nesaf | |

# 5. Y tair dyletswydd cynllunio: cynyddu mynediad i addysg ysgol i ddisgyblion ag anableddau

Mae Atodlen 10 o'r Ddeddf [6] yn cynnwys manylion statudol penodol am strategaethau a chynlluniau hygyrchedd. Yn y Bennod hon ceir mwy o wybodaeth am y gofyniad i ystyried y tair dyletswydd cynllunio yn y strategaethau a'r cynlluniau hygyrchedd.

## 5.1 Gwella mynediad i'r cwricwlwm

> Mae strategaeth neu gynllun hygyrchedd dros gyfnod o amser yn cael ei rhagnodi gan reoliadau, ar gyfer -
>
> (**a) cynyddu'r graddau y gall disgyblion ag anableddau gyfranogi yng nghwricwlwm yr ysgol**
>
> (b) ….
> (c) ….
>
> (i) o fewn cyfnod rhesymol;
> (ii) mewn dulliau a bennir ar ôl ystyried eu namau ac unrhyw ddymuniadau a fynegir ganddyn nhw neu gan eu rhieni

Mae gan ddisgyblion ag anableddau yr un hawliau cwricwlaidd yn union â'u cyfoedion sydd heb anableddau. Trwy ymyrryd ac atal yn gynnar, dylai hyn alluogi rhagor o blant i gael eu hanghenion llesiant wedi'u diwallu mewn modd mwy cynhwysol trwy wasanaethau cyffredinol.

Nid yw'r Ddeddf yn diffinio ystyr cwricwlwm. Fodd bynnag, dylid ei gydnabod fel crynswth y profiadau a gynllunnir ar gyfer plant a phobl ifanc trwy eu haddysg, ble bynnag y cânt eu haddysgu. Mae'r crynswth hwn yn cynnwys ethos a bywyd yr ysgol fel cymuned, meysydd cwricwlwm a phynciau, dysgu amlddisgyblaeth a chyfleoedd i gyflawni.

Mae llawer o'r rhwystrau i gyfranogaid llawn mewn addysg yn gallu bod yn debyg i grwpiau o ddisgyblion ag anableddau. Felly bydd yn ddefnyddiol i gorff cyfrifol gymryd agwedd strategol rhagweithiol yn ogystal ag agwedd adweithiol er mwyn dymchwel y rhwystrau hyn.

Mae sicrhau argaeledd cyfleusterau a all ddarparu ar gyfer y cwricwlwm llawn ac anghenion disgyblion ag anableddau y dyfodol, er enghraifft trwy sicrhau bod ystafelloedd dosbarth a ddynodir at ddibenion penodol (e.e. cerddoriaeth, gwyddoniaeth neu gelf) yn y mannau hynny yn yr ysgol sy'n gwbl hygyrch yn enghraifft o fesurau rhagweithiol. Bydd mesur adweithiol o bosibl yn galw am ailwampio cynllun ystafell ddosbarth i ddarparu lle hygyrch i ddisgybl ag anghenion.

Ar lefel strategol, ragweithiol hwyrach y bydd awdurdod lleol yn dewis disgrifio yn ei strategaeth mynediad sut y gellid dosbarthu darpariaeth cymorth ac ychwanegol yn well ar draws ysgolion yr awdurdod.

---

[6] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/10?view=plain

Hwyrach y bydd cyrff cyfrifol yn dymuno sefydlu yn eu cynlluniau hygyrchedd y bydd darpariaeth cymhorthion ychwanegol, megis cyfarpar arbenigol, ar gael fel mater o drefn i ddisgyblion sydd â namau penodol gan sicrhau bod yr holl ymarferion caffael perthnasol newydd yn cynnwys cyflenwad o'r cyfryw gymhorthion ychwanegol. Felly hefyd y contractau i gael gafael ar adnoddau papur at ddibenion y cwricwlwm (megis gwerslyfrau neu daflenni gwaith), dylai fod yn ofynnol i adnoddau o'r fath gael eu cyflenwi ar ffurf electronig i helpu unrhyw ddisgyblion yn y dyfodol sy'n methu defnyddio fformatau print.

Dylai strategaethau a chynlluniau hygyrchedd gynnwys manylion ynghylch sut y bwriada'r corff cyfrifol gynyddu'r graddau y gall disgyblion ag anableddau gael mynediad llawn i'r cwricwlwm trwy sicrhau hyfforddiant staff a nodi'r defnydd o ddulliau amgen ar gyfer addysgu a chymorth. Anogir ysgolion i rannu arfer da a chydweithio ar fentrau ag ysgolion neu asiantaethau eraill, gan gynnwys therapyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Wrth baratoi strategaethau dylid annog staff ysgol i hysbysu'r grŵp cynllunio sy'n paratoi'r strategaeth neu'r cynllun nid yn unig am y meysydd sydd angen eu gwella, ond hefyd i gyfrannu enghreifftiau o arfer da, lle mae mentrau'n gweithio'n dda.

Wrth ystyried darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl sydd ag anghenion iechyd sylweddol, dylid cynnwys eu rhieni a'u gofalwyr gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol ac unrhyw weithwyr arwyddocaol eraill yn llawn wrth baratoi'r strategaeth neu'r cynllun. Hefyd, gall y ddogfen ddisgrifio'n ddefnyddiol y trefniadau ar gyfer cydweithio'n well â gweithwyr iechyd proffesiynol, asiantaethau eraill a'r trydydd sector.

Wrth ystyried sut mae modd gwella mynediad disgyblion ag anableddau i'r cwricwlwm, **ni** ddylai staff ganolbwyntio ar feysydd penodol o'r cwricwlwm neu bynciau unigol fel Cymraeg neu Saesneg, mathemateg, ieithoedd, gwyddorau, cerddoriaeth ac addysg gorfforol. Rhaid ystyried *pob* agwedd ar y cwricwlwm, yn cynnwys gweithgareddau a gofal y tu allan i oriau ysgol. Dylai'r cynllunio gynnwys mentrau i oresgyn unrhyw rwystrau sy'n atal neu'n ei gwneud yn anodd i blant anabl ac oedolion ifanc gymryd rhan lawn ar deithiau ysgol a gweithgareddau megis dramâu, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau cymorth i astudio. Yr ethos y dylai'r ysgol ei chael yw un sy'n dathlu amrywiaeth ac yn annog cynhwysiant.

**Enghraifft:- Llyfrau i Bawb**

Yn gyffredinol, mae'n fanteisiol i ddisgyblion sy'n ddall neu'n rhannol ddall gael taflenni gwaith ac ati wedi'u darparu ar ffurf amgen neu yn electronig e.e. print bras neu Braille. Gall fod yn fanteisiol i grwpiau eraill o ddisgyblion ag anableddau gael deunyddiau'r cwricwlwm wedi'u darparu ar ffurf amgen hefyd. Er enghraifft, mae'n fantais i rai disgyblion â dyslecsia gael deunydd wedi'i baratoi mewn print bras, neu mewn ffont penodol, neu wedi'i argraffu ar bapur lliw. Hwyrach y bydd yn well gan rai ddefnyddio llyfrau llafar neu ddefnyddio cyfrifiadur sy'n darllen y testun yn uchel. Gall fod yn ofynnol i rai disgyblion â namau corfforol gael deunydd wedi'i gyflwyno'n ddigidol ar gyfrifiadur, lle gallan nhw ddefnyddio switsys neu fath arall o dechnoleg gynorthwyol.

Mae'r wefan *Books for All* yn darparu cyngor ar sut y gellir cael gafael ar ddeunyddiau dysgu, sut mae eu defnyddio a'u paratoi mewn fformatau hygyrch amgen.

Ers 2010, mae'r Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint (CLA) wedi gweithredu '*Print Disability Licence*'. Mae'r drwydded hon yn rhad ac am ddim a gellir ei chael oddi

wrth y CLA. Mae'n caniatáu i sefydliadau dielw, megis awdurdodau lleol ac ysgolion, atgynhyrchu a dosbarthu gwaith sydd wedi'i hawlfreinio ar ffurf hygyrch i ddisgyblion ag anableddau. Mae ffurfiau amgen yn cynnwys print bras, Braille neu lyfrau llafar. Mae'r drwydded yn cwmpasu darparu deunydd sy'n cynnwys nid yn unig pobl â nam ar y golwg ond hefyd unrhyw anabledd print sy'n eu hatal rhag cyrchu deunyddiau print megis llyfrau.

Hwyrach yr hoffai cyrff cyfrifol gynnwys yn eu strategaethau hygyrchedd eu dulliau o roi'r trefniadau ar waith megis *Books for All* er lles disgyblion ag anableddau print trwy wella eu mynediad at ddeunyddiau'r cwricwlwm.

Mae'r enghraifft uchod yn dangos sut mae dyletswydd corff cyfrifol at ddisgybl anabl o dan y Ddeddf yn gallu cael ei hategu gan ei ddyletswyddau cynllunio trwy adrodd ar hygyrchedd. Mae dyletswydd o dan y Ddeddf i ddarparu gwybodaeth hygyrch mewn fformat amgen. Gellid ystyried hyn yn addasiad rhesymol. Ar yr un pryd, gall corff cyfrifol gyflwyno dulliau yn yr ysgol neu ar draws y system o gynhyrchu gwybodaeth hygyrch a fydd o fudd i niferoedd mwy o ddisgyblion ag anableddau print. Mae cynllunio hygyrchedd yn annog dull systemataidd o werthuso trefniadau cyfredol a threfniadau'r dyfodol ar gyfer disgyblion ag anableddau.

**Enghreifftiau ychwanegol o gynyddu mynediad i'r cwricwlwm**

Mae technoleg gynorthwyol (megis: cyfrifiaduron sgrîn-gyffwrdd, byrddau gwyn rhyngweithiol, meddalwedd testun i lafar, bysellfyrddau, llygod cyfrifiaduron, cymhorthion gweld ac ati) ar gael i gynorthwyo anghenion ychwanegol plant ac i hyrwyddo dysgu annibynnol.

Mae meddalwedd arbenigol ar gael i sicrhau bod systemau TG yr ysgol a'r cartref yn gydnaws, i hwyluso'r gwaith o drosglwyddo gwaith cartref o'r ysgol i'r cartref ar gyfer plant â nam ar y golwg

Gall darparu dolen sain mewn adeilad helpu pobl sydd â nam ar y clyw. Fodd bynnag, efallai na fydd rhai disgyblion yn defnyddio cymorth clyw ond yn hytrach yn darllen gwefusau. Golyga hyn y dylai athrawon ofalu eu bod yn wynebu'r disgybl wrth siarad yn y dosbarth, gan fod hynny yn addasiad rhesymol. Mae'r enghraifft hon yn dangos pam y dylai ysgol ymgynghori â phob disgybl yn unigol i ganfod pa addasiad sy'n briodol ac yn rhesymol iddyn nhw.

## 5.2 Gwella'r amgylchedd ffisegol

> (2) Mae cynllun neu strategaeth hygyrchedd dros gyfnod o amser yn cael ei rhagnodi gan reoliadau —
>
> (a).....
> (**b) gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol neu ysgolion at ddibenion cynyddu'r graddau y gall disgyblion ag anableddau fanteisio ar addysg a buddiannau, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan yr ysgol(ion)**
> (c).....
>
> (i) o fewn cyfnod rhesymol;
> (ii) mewn dulliau a bennir ar ôl ystyried eu namau ac unrhyw ddymuniadau a fynegir ganddyn nhw neu gan eu rhieni

Mae amgylchedd ysgol addas yn gwbl hygyrch i bob disgybl ag anableddau ac ni ddylai chwaith fod yn llyffethair i athrawon anabl gyflawni eu dyletswyddau.

Wrth ddatblygu ystâd yr ysgol a gwella'r gallu i ddiwallu anghenion pob person anabl, dylai cyrff cyfrifol roi sylw dyledus i gyngor a gyhoeddwyd eisoes gan y llywodraeth. Mae'r cyngor anstatudol a gynhyrchwyd gan yr Adran Addysg, sef, ***Building Bulletin 102 Designing for disabled children and children with special educational needs: Guidance for mainstream and special schools*** yn hynod ddefnyddiol. Serch hynny, gall y ddogfen wrthdaro â chanllawiau eraill. Felly dylai strategaeth hygyrchedd ddangos tystiolaeth o ystyriaeth wybodus o'r materion perthnasol. Er enghraifft, rhaid sicrhau nad yw'r dulliau effeithiol a ddefnyddir i awyru adeilad yn effeithiol yn cael effaith wael ar yr amgylchedd acwstig mewnol i bobl sydd â nam ar y clyw.

Rhaid i'r corff cyfrifol sy'n paratoi'r strategaeth neu'r cynllun hygyrchedd fabwysiadu dull eang sy'n ceisio gwella mynediad y tu allan yn ogystal ag y tu mewn i adeilad; er enghraifft sicrhau bod y bysiau a ddefnyddir ar gyfer cludiant ysgol a thripiau ysgol yn hygyrch i ddisgyblion ag anableddau.

Gall y gwelliannau i drefniadau gynnwys:

- mynediad i adeilad(au) (megis cynllunio pensaernïol ar gyfer hygyrchedd): gosod canllawiau, lledu'r drysau, darparu lifft, drysau awtomatig, toiledau hygyrch, cawodydd ac ystafelloedd newid, addasu celfi ac offer (addasadwy), sicrhau lle digonol ar gyfer symud o gwmpas a chadw cyfarpar, y gorchudd llawr a'r gweithdrefnau gwacau)
- mynediad i ddisgyblion â nam ar y golwg (er enghraifft: gwella'r arwyddion, dod o hyd i lwybrau sy'n galluogi disgyblion i fynd o gwmpas yr adeilad yn hawdd; lliwiau cyferbyniol ar fframiau a dolenni'r drysau, ac ar risiau i helpu disgyblion i wneud y defnydd gorau o'r gallu sydd ganddynt i weld; golau y gellir ei addasu; bleinds; palmentydd botymog y tu allan i'r ysgol; gweithdrefnau gwacau)
- mynediad i ddisgyblion â nam ar y clyw (er enghraifft: dolen sain/systemau radio /systemau isgoch; golau y gellir ei addasu; muriau, lloriau a nenfydau wedi'u hinsiwleiddio rhag sŵn; gweithdrefnau gwacau; gorchuddion llawr a dodrefn meddal)

- mynediad i ddisgyblion â namau eraill (er enghraifft gofynion o ran lle: darparu ystafell cefnogi disgyblion, ystafelloedd tawel, ystafelloedd synhwyraidd/mannau chwarae, ystafelloedd therapi a systemau dod o hyd i'r ffordd). Dylid ymgynghori â therapyddion galwedigaethol a swyddogion mynediad i gael eu cyngor lle bo modd.

## 5.3 Gwella cyfathrebu

> (2) Rhagnodir gan reoliadau y dylai strategaeth neu gynllun hygyrchedd dros gyfnod o amser —
>
> (a)…..
> (b)……
> **(c) wella'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anableddau sydd eisoes yn hygyrch i ddisgyblion nad ydynt yn anabl**
>
> (i) o fewn cyfnod rhesymol;
> (ii) mewn dulliau a bennir ar ôl ystyried eu namau ac unrhyw ddymuniadau a fynegir ganddyn nhw neu gan eu rhieni

Mae gwella cyfathrebu a darparu gwybodaeth i ddisgyblion ag anableddau yn elfen allweddol o'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Wrth gyfathrebu â phob disgybl, rhaid i gyrff cyfrifol sicrhau bod disgyblion ag anableddau yn cael eu cynnwys yn llawn. Er enghraifft, efallai y bydd angen i ddisgybl byddar mewn ysgol prif ffrwd ddefnyddio dolen sain neu gael dehonglydd iaith arwyddion yn y gwasanaeth boreol yn yr ysgol. Hwyrach y bydd angen i staff yr ysgol gael hyfforddiant mewn swydd wedi'i deilwra i'w helpu i gyfathrebu'n effeithiol â disgyblion ag anawsterau cyfathrebu ac iaith benodol. Bydd rôl y Person Iechyd a Enwir ar gyfer plant cyn ysgol a'r Person Addysg a Enwir ar gyfer plant oed ysgol yn hanfodol o ran cefnogi cyfathrebu i blant anabl a'u teuluoedd.

Dylai cyrff cyfrifol gymryd camau i wella'r modd y gall disgyblion ag anableddau gyfrannu eu safbwyntiau ar unrhyw fater sydd o ddiddordeb iddyn nhw, casglu'r safbwyntiau hynny a'u hystyried. Dylid ystyried a ellir rhoi gwaith dosbarth neu waith cartref mewn fformatau eraill. Byddai hyn yn cynnwys sut orau i farcio gwaith cartref neu waith arall y mae disgyblion yn ei wneud mewn fformat arall a'r dull gorau o roi sylwadau arno gan staff yr ysgol. Hefyd dylid ystyried sut y gall rhiant neu ofalwr anabl unrhyw ddisgybl gael y cyngor a roddir gan athrawon i unrhyw riant arall nad yw'n anabl. Hefyd dylid ystyried y cyfathrebu a wneir rhwng disgyblion ag unrhyw staff cymorth ychwanegol fel rhan o'u dysgu o dan y ddyletswydd "*mynediad i'r cwricwlwm*".

Fodd bynnag, bydd gweithgareddau allgwricwlwaidd y bydd disgyblion yn cael gwybod amdanynt a dylai disgyblion ag anableddau allu rhoi eu barn neu ofyn cwestiynau yn yr un modd â'u cyd-ddisgyblion. Hefyd, dylai disgyblion allu cyfathrebu â staff eraill, â disgyblion neu bobl sy'n gweithio yn yr ysgol, er enghraifft yn y ffreutur neu yn swyddfa'r ysgol ac yn ystod gweithgareddau y tu allan i oriau.

Dylai cyrff cyfrifol ystyried sut y gellir mynd ati i wella cyfathrebu a chreu ymwybyddiaeth ymhlith holl staff yr ysgol ynghylch yr anawsterau y gall disgyblion â namau penodol fod yn eu hwynebu wrth gyfathrebu â phobl.

Dylai gwybodaeth ysgrifenedig fod mor hygyrch i ddisgyblion ag anableddau a darpar ddisgyblion ag anableddau ag ydyw i ddisgyblion heb anableddau. Dylai'r strategaeth/cynllun nodi sut y cyflawnir hyn. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth a ddarperir i ddarpar ddisgyblion ar ffurf llyfrynnau neu erthyglau ar wefannau'r ysgol, cynlluniau datblygu ysgolion a gwybodaeth arall megis adroddiadau arolygwyr.

Dylai hoffterau a namau penodol a fynegir gan ddisgyblion ag anableddau, darpar ddisgyblion neu eu rhieni lywio'r gwaith o ddarparu gwybodaeth. Er enghraifft, gallai disgybl dall fod angen gwybodaeth wedi'i darparu mewn Braille neu ar ffurf ddigidol hygyrch fel y gellir lawrlwytho'r ffeil i gyfrifiadur personol a'i darllen mewn print bras neu ddefnyddio meddalwedd tesun-llais.

Mae'r holl wybodaeth a ddefnyddir ac a gyhoeddir gan yr ysgol yn berthnasol i'r ddyletswydd hon ac yn cynnwys, er enghraifft:

- cylchlythyron ysgol
- taflenni gwybodaeth a thaflenni gwaith
- amserlenni
- profion a phapurau arholiad
- posteri a gwybodaeth am ddigwyddiadau ysgol
- gwaith cartref
- yr arwyddion a ddefnyddir yn yr ysgol

Dylai'r gwaith cartref, taflenni gwybodaeth a thaflenni gwaith, cylchlythyrau'r ysgol, posteri a gwybodaeth am ddigwyddiadau'r ysgol gael eu darparu mewn fformat hygyrch.

Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir mewn fformat amgen fod ar gael o fewn amser rhesymol. Nid yw'r Ddeddf yn diffinio 'amser rhesymol' ond rhaid pennu ystyr rhesymol yng nghyd-destun a diben y wybodaeth ofynnol. Er enghraifft, os yw athro yn darparu gwybodaeth am waith cartref i ddosbarth yna dylai'r disgybl anabl ei dderbyn yn y fformat amgen yr un pryd â'i gyd-ddisgyblion. Dan amgylchiadau eraill, efallai y bydd oedi am amser byr yn dderbyniol, er enghraifft darparu gwybodaeth am daith ysgol a gynhelir y tymor canlynol. Er mwyn cyflawni'r uchod, bydd angen i'r strategaethau a'r cynlluniau hygyrchedd gynnwys gweithdrefnau ar gyfer gwneud gwybodaeth yn hygyrch mewn amryw o fformatau fel a ganlyn:-

- Braille
- Print bras
- Iaith arwyddion
- System symbol
- fformatau digidol yn cynnwys PDF
- fformatau sain – CD, MP3, cod QR
- gwella hygyrchedd iaith e.e. testun syml hawdd i'w ddarllen
- tudalennau gwe hygyrch

Dylai gwefannau ddilyn canllawiau hygyrchedd Cynnwys Gwe Menter Hygyrchedd y We (Web Accessibility Initiative Web Content).
Mae'n bwysig bod mesurau sicrwydd ansawdd ar waith i sicrhau bod cynnwys a roddir ar dudalennau gwe yn parhau i fod yn hygyrch yn y dyfodol.

## 5.4 Rhestr wirio i'w defnyddio wrth gynllunio TGCh

Nid yw'r rhestr wirio ganlynol yn cynnwys popeth ond mae'n rhoi sampl o swyddogaethau ymarferol y gall disgyblion ag anableddau fod eu hangen er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm neu wybodaeth arall a gyhoeddir gan yr ysgol. Gall rheolwyr TGCh, staff sy'n ymwneud â chaffael ac ysgolion ddefnyddio'r rhestr fel man cychwyn i wirio a oes addasiadau rhesymol ar waith ai peidio.

| **Mynediad i TGCh a Thechnoleg Gynorthwyol (TG)** | |
|---|---|
| Gall cyflenwad yr ysgol neu'r awdurdod lleol o lechi, gliniaduron neu rwydlyfrau a rennir gael eu harchebu gan ddisgyblion ag anableddau ar gyfer tasgau dysgu penodol. | |
| Mae gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol lwybr neu weithdrefn a staff arbenigol i:<br>• Nodi disgyblion sydd angen TGCh a/neu TG i gael mynediad i'r cwricwlwm.<br>• Asesu a darparu TGCh a/neu TG priodol<br>• Sicrhau hygyrchedd cyfrifiaduron ysgol a TGCh | |
| Mae gan bob ysgol feddalwedd testun-llais (MTLl) wedi'i osod ar gyfer darllen dogfennau a thudalennau gwe | |
| Mae clustffonau ar gael i'w defnyddio gyda MTLl yn ôl y gofyn. | |
| Gellir newid gosodiadau'r Panel Rheoli yn hawdd a chyflym i alluogi mynediad i bob disgybl anabl yn cynnwys lle bo angen y cyfleuster clicio ar y Dde. Gellir cadw addasiadau o'r fath ar broffil y defnyddiwr. | |
| Gellir gosod y caledwedd a'r meddalwedd arbenigol sy'n ofynnol gan ddysgwyr anabl yn hawdd a chyflym a'u defnyddio ar gyfrifiaduron yr ysgol. | |
| Cynllunnir yr adnewyddu neu'r ail-ddelweddu cyfrifiadurol er mwyn gallu defnyddio'r caledwedd a'r meddalwedd cynorthwyol a ddefnyddir gan ddisgyblion ag anableddau. | |
| Os bydd adnewyddu neu ail-ddelweddu cyfrifiadurol yn peri na ellir defnyddio'r dechnoleg gynorthwyol gyfredol, dylid uwchraddio'r system neu osod un newydd fel na fydd anfantais i'r disgybl anabl. | |
| **Mynediad i Adnoddau Dysgu** | |
| Gellir darparu adnoddau dysgu (e.e. gwerslyfrau, llyfrau darllen, deunyddiau a gynhyrchir gan athrawon, asesiadau, gwaith cartref) mewn fformat y gall dysgwyr gael mynediad iddo, megis Digidol, Sain, Print Bras, ar Bapur lliw, Braille, ac ati. | |
| Gellir addasu adnoddau dysgu ar-lein ac asesiadau ar-lein fel nad oes anfantais i ddisgyblion ag anableddau. | |
| Gall dysgwyr drosglwyddo gwaith yn ôl a blaen o'r ysgol i'r cartref gan ddefnyddio e.e. rhannu ffeiliau ar y fewnrwyd neu'r Rhyngrwyd, neu ar gof bach | |
| Gall dysgwyr sy'n defnyddio TGCh i ysgrifennu a chofnodi argraffu eu gwaith | |
| Ymwybyddiaeth ac arbenigedd staff a disgyblion | |
| Mae'r staff (addysgu, cefnogi, llyfrgell a thechnegol) yn ymwybodol o'r ymrwymiadau cyfreithiol i ddarparu mynediad i'r cwricwlwm ac i adnoddau'r cwricwlwm o dan y Dyletswyddau Cydraddoldeb, gan gyfeirio'n benodol at Ganllawiau ar Gymhorthion Ychwanegol a Gwasanaethau. | |
| Mae penderfyniadau caffael o ran caledwedd a meddalwedd yn rhoi sylw priodol i hygyrchedd a dyletswyddau addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf. Yn | |

| | |
|---|---|
| arbennig, ni ddylid codi tâl ychwanegol am addasiadau a wneir i systemau fel rhan o’r addasiadau rhesymol a wneir. | |
| Mae staff a disgyblion yn ymwybodol o opsiynau Panel Rheoli ar gyfrifiaduron yr ysgol ac unrhyw galedwedd a meddalwedd arbenigol a ddefnyddir. | |

# 6. Ystyriaethau ar gyfer y cynllun hygyrchedd

Ar ôl nodi rhwystrau i fynediad y disgyblion ag anableddau, mae angen i ysgolion gyflwyno camau gweithredu i ddileu'r rhwystrau hyn. Dylai ysgolion restru'r holl addasiadau angenrheidiol yn cynnwys amcan realistig o gost ac asesiad o'r effeithiau manteisiol a geir. Gellid eu rhannu yn gategorïau megis hyfforddiant staff; arferion addysgu a dysgu; ailwampio a chynnal a chadw (e.e. defnyddio lliw wrth ailaddurno a gosod gorchudd newydd ar loriau a dodrefn); gwariant cyfalaf bach; gwariant cyfalaf mawr.

Wedyn, dylai ysgolion lunio blaenoriaethau byrdymor, tymor canol a hirdymor a dyfeisio strategaethau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau gyda threfniadau gweithredu clir ac amserlen ar gyfer y gwaith. Pan fo blaenoriaethau'n cynnwys gwaith cyfalaf, mae angen eu cynnwys hwy yng nghynlluniau'r corff sy'n gyfrifol am wariant cyfalaf.

Mae angen i ysgolion ddarparu adnoddau digonol ar gyfer eu cynlluniau hygyrchedd. Golyga hyn fod costau rhoi'r cynllun ar waith yn cael eu hymgorffori yn yr ymrwymiadau cyllidebol cyfredol a rhai'r dyfodol. Dylai ysgolion a gynhelir gydgysylltu â'u hawdurdod lleol ynghylch adnoddau i ariannu prosiectau cyfalaf.

## 6.1 Pennu **nodau a thargedau**

Dylai nodau a thargedau fod yn ddigon penodol fel y gellir eu mesur (e.e. yr holl staff i dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd ymhen dwy flynedd; un labordy gwyddoniaeth, un ystafell TGCh, un ystafell gelf ac un stiwdio ddrama i fod yn hygyrch i gadair olwyn).

Gallai strategaeth fyrdymor gynnwys gweithio mewn clwstwr lleol o ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i rannu arfer da wrth wahaniaethu'r cwricwlwm. Gallai strategaeth tymor canol sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant cydraddoldeb anabledd ymhen dwy flynedd gan lunio rhaglen sefydlu i staff newydd. Blaenoriaeth hirdymor fyddai cynllunio i sicrhau bod yr ardaloedd cyffredin yn yr ysgol a rhai dosbarthiadau penodol yn gorfforol hygyrch. Mae angen i'r ysgol sicrhau cytundeb i'r cyllid angenrheidiol a chynnwys amserlenni a strategaethau gwerthuso i alluogi'r ysgol i farnu pa mor effeithiol fu gweithrediad y cynllun. Yn unol ag Erthygl 4 CCUHP (Sylw Cyffredin Rhif 5 - Mesurau Gweithredu Cyffredinol), rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol sicrhau y dyrennir mwyafswm yr adnoddau sydd ar gael i sicrhau y cyflawnir y camau gweithredu sy'n deillio o'r strategaethau a'r cynlluniau. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu a diogelu amlygrwydd anghenion plant a phobl ifanc wrth bennu cyllidebau ysgolion ac Awdurdodau Lleol.

## 6.2 Ymgynghori **ar y cynllun**

I gynllun lwyddo, rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol amdano ei berchenogi. Felly dylai ysgolion ymgynghori â'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r corff llywodraethu. Dylai pawb sy'n ymwneud â'r cynllun gael cyfle i roi barn cyn i'r cynllun gael ei gadarnhau. Rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y corff sy'n gyfrifol amdano; gan amlaf y corff llywodraethu fydd hwnnw. Dylai cyrff cyfrifol barhau i gynnwys plant a phobl ifanc yn y penderfyniadau i lywio datblygiad y strategaeth, yn cynnwys cynllunio ac adolygu. Dylai'r holl gyfranogaeth ddilyn y safonau a nodir yn y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.

## 6.3 Paratoi'r cynllun terfynol a'i gyhoeddi

Dylai ysgolion ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth baratoi'r cynlluniau terfynol.

Mae'n ddyletswydd ar ysgolion a gynhelir i gyhoeddi gwybodaeth am eu cynlluniau hygyrchedd yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni. Gall fod yn grynodeb o'r cynllun hygyrchedd cyfan, gan nodi'n glir ble gellir dod o hyd i'r cynllun llawn. Mae'n ofynnol i ysgolion annibynnol wneud copi o'u cynllun hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf. Gellir gofyn i ysgolion ddarparu eu strategaethau mewn fformatau amgen, e.e., braille, tâp sain, print bras.

## 6.4 Gweithredu

Unwaith y bydd ysgol wedi cynhyrchu cynllun hygyrchedd, mae'n ddyletswydd statudol ar yr ysgol i weithredu'r cynllun a dyrannu adnoddau digonol ar ei gyfer.

## 6.5 Adolygu'r cynllun

Mae angen gwerthuso er mwyn pennu a yw'r nodau yn cael eu cyflawni ac a yw'r rhaglen weithredu yn sicrhau gwerth am arian. Mae'n ofynnol i ysgolion barhau i adolygu eu cynllun hygyrchedd a'i addasu yn ôl y gofyn.

Ar gyfer pob un o'r tair dyletswydd cynllunio, dylai'r cynllun hygyrchedd nodi addasiadau a allai sicrhau cynnydd mewn hygyrchedd i ddisgyblion ag anableddau – waeth a oes disgyblion ag anableddau yn mynychu'r ysgol yn barod ai peidio. Gwneir hyn fel bod penderfyniadau caffael yn rhai gwybodus, ac y byddant o leiaf yn galluogi mabwysiadu yn y dyfodol ddatrysiadau a fydd yn hwyluso gwell hygyrchedd. Bydd ymgynghori effeithiol yn nodi'r ystod o anabledd y gall fod angen i ysgolion eu hystyried, yn ogystal ag unrhyw ofynion mynediad penodol a all godi ymhlith disgyblion ag anableddau o oedran ysgol cyfredol neu ddarpar ddisgyblion. Wedyn gellir bwrw iddi gyda'r cynllun hygyrchedd i gyflawni camau blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod hygyrchedd gwell yn dod yn fater o drefn. Dylid rhoi ar waith drefniadau priodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ac Awdurdodau Lleol gynnwys plant, pobl ifanc a'u rhieni yn yr adolygiad, y gwaith craffu a'r gwerthusiad o'r cynlluniau a'r strategaethau.

## 6.6 TGCh

Bydd nodi caledwedd a meddalwedd hygyrch a datrysiadau cysylltedd TG yn hwyluso eu defnydd yn y dyfodol gan ddisgyblion ag anableddau, a all fod angen cysylltu eu gliniadur neu eu dyfais llechen eu hunain i rwydwaith yr ysgol. Rhaid i seddau cyfrifiadurol/seilwaith/byrddau gwyn ac ati allu darparu lle digonol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, boed yn ddisgyblion neu athrawon. Rhaid i osodiadau'r Panel Rheoli ar gyfrifiaduron ysgol fod yn hawdd i athrawon eu newid er mwyn hwyluso anghenion disgyblion unigol yn eu dosbarth a gall hyn amrywio yn ôl y goleuadau yn yr ystafell a ddefnyddir.

## 6.7 Adeiladau a gwasanaethau

Mae rhagweld anghenion disgyblion ag anableddau ac athrawon cyn iddynt godi yn rhan bwysig o'r strategaethau hygyrchedd. Felly, er enghraifft, gall cynllun adeiladau a gwaith ailwampio a'r tendrau a gynigir ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau dros nifer o flynyddoedd ragweld anghenion hygyrchedd darpar ddisgyblion, waeth a yw'r anghenion yn bodoli eisoes ai peidio. Mae sicrhau bysiau ysgol llawr isel sy'n gallu cludo cadeiriau olwyn,

a darparu meddalwedd testun-llais ar yr holl gyfrifiaduron heb fod angen tâl ychwanegol am newid systemau yn y dyfodol am ei fod yn addasiad rhesymol, i gyd yn enghreifftiau o'r ffordd y dylid nodi blaengynllunio o'r fath fel amod ariannol wrth gytuno ar gontractau.

Pan fo adeiladau presennol yn anaddas ar gyfer cadeiriau olwyn, pa addasiadau y gellir eu gweithredu fyddai'n gwella eu hygyrchedd? Gall hyn amrywio o waith ffisegol i newid lleoliad neu gynllun ystafelloedd dosbarth penodol fel eu bod yn dod yn fwy hygyrch i bobl ag anghenion symudedd. Fel mater o drefn, dylid gosod arwyddion mewn lleoedd hawdd eu gweld a dylent fod o natur sy'n eu gwneud yn hawdd eu gweld i ddefnyddwyr cadair olwyn ac i bobl â phroblemau gweld; dylai lle storio cyfarpar ysgol a phersonol hefyd fod yn hawdd i'r unigolion hyn eu cyrchu.

## 6.8 Gwerthuso

Dylid datblygu trefniadau gwerthuso yn unol â nodau, targedau ac amserlenni a nodir yn y cynllun.

Yn ogystal â chyflawni nodau a thargedau, gellir gweld llwyddiant cynllun hygyrchedd trwy:

- newidiadau amlwg yn hyder staff wrth addysgu a chefnogi disgyblion ag anableddau ag amrywiaeth o anghenion;
- tystiolaeth o'r cynnydd yng nghynhwysiant disgyblion ag anableddau ym mywyd llawn yr ysgol (er enghraifft, cyfranogi mewn clybiau ar ôl ysgol, hamdden, gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol a theithiau ysgol a chludiant ysgol);
- mwy o foddhad i ddisgyblion ag anableddau a'u rhieni gyda'r ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer a'u cyfranogiad ym mywyd yr ysgol;
- cynnal archwiliadau o'r prif feysydd cwricwlwm;
- gwelliannau blaengar wedi'u cynllunio i amgylchedd ffisegol yr ysgol;
- gwybodaeth ar gael i ddisgyblion mewn amrywiaeth o fformatau.

## 6.9 Sicrhau dyfodol y cynllun hygyrchedd

Trwy gynnwys cynllunio hygyrchedd yn y polisïau ehangach, gellir sicrhau y bydd yr ymrwymiad i'r cynllun yn estyn y tu hwnt i'r grŵp cynllunio ac felly'n ennyn hyder bod yna wir ymrwymiad.

Gall y cynllun hygyrchedd fod yn elfen ar wahân o gynllun datblygu'r ysgol. Gydag amser, dylai'r cynllun ddod yn rhan annatod o flaengynllunio – yn elfen gyson sy'n rhedeg drwy holl gynlluniau a pholisïau'r ysgol, yn cynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â rheoli'r safle a'r adeiladau, y cwricwlwm, technoleg gwybodaeth, gwasanaethau cymorth a hyfforddiant staff.

## 6.10 Cyngor ychwanegol

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn cwmpasu'r holl bobl o dan y Ddeddf. Mae dogfen Llywodraeth Cymru **"Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol"** [7] yn rhoi cyngor penodol i ysgolion ac awdurdodau lleol ar ddiwallu anghenion addysgol plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol.

[7] http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?skip=1&lang=cy

Mae **Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru**[8] yn darparu gwybodaeth benodol i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn cynnwys y diffiniad cysylltiedig a'r fframwaith deddfwriaethol.

8 http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf

## Atodiad A: Deddfwriaeth berthnasol

Deddf Cydraddoldeb 2010
Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
Rhan IV o Ddeddf Addysg 1996[9] (fel y'i diwygiwyd gan adrannau 1-8 o Fesur Addysg (Cymru) 2009)
Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Gwybodaeth) (Cymru) 1999
Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012
Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

[9] Mae Bil Tribiwnlys Addysg ac Anghenion Addysgol Arbennig (Cymru) yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol ychwanegol (AAY). Bydd hyn yn disodli deddfwriaeth bresennol (yn cynnwys Rhan IV o Ddeddf Addysg 1996) sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig (AAA).

## Atodiad B: Nodi rhwystrau – enghraifft o gwestiynau i'w hystyried wrth baratoi cynllun hygyrchedd

| **Adran 1** |
| --- |
| Sut mae maint a chynllun ardaloedd, yn cynnwys y cyfleusterau academaidd, chwaraeon, chwarae, a chymdeithasol; ystafelloedd dosbarth, ystafelloedd cyffredin, y neuadd ymgynnull, ffreutur, llyfrgell, campfa a chyfleusterau chwaraeon awyr agored yn galluogi'r holl ddisgyblion i gael mynediad iddynt? |
| Sut mae disgyblion sy'n defnyddio cadair olwyn o gwmpas yr ysgol yn gallu mynd o gwmpas yr ysgol heb brofi rhwystrau i'w mynediad, er enghraifft, drysau, grisiau a chyfleusterau tŷ bach a chawodydd? |
| A yw'r holl lwybrau teithio o gwmpas safle'r ysgol a threfniadau parcio yn ddiogel, ac a yw'r llwybrau'n rhesymegol gydag arwyddion da? |
| A yw'r systemau argyfwng a gwacau wedi'u trefnu fel bod yr HOLL ddisgyblion yn cael eu hysbysu, yn cynnwys disgyblion ag anableddau a disgyblion ag AAA; yn cynnwys larymau gyda dyfeisiau gweledol a sain? |
| A ddefnyddir arwyddion anweledol, gyda botymau cyffwrdd ar y lifft, i helpu pobl i ddefnyddio'r adeiladau? |
| A allai'r lliwiau addurno beri dryswch neu annifyrrwch i ddisgyblion ag anableddau megis nam ar y golwg, awtistiaeth neu epilepsi? |
| A allai'r arwyddion fod yn ddryslyd neu'n annigonol i ddisgyblion ag anableddau? |
| A yw'r holl ardaloedd lle bydd disgyblion yn mynd iddynt wedi'u goleuo'n dda? |
| Sut mae'r mannau storio yn galluogi disgyblion ag anableddau i fynd i mewn iddynt i gael gafael ar gymhorthion neu gyfarpar? |
| Pa gamau a wneir i sicrhau bod pobl â namau ar eu clyw neu eu llygaid yn cael eu cynnwys mewn digwyddiadau sy'n cael eu trefnu? E.e. Ystyried yr acwsteg yn yr ystafell, cyfarpar swnllyd, a'r ffordd o gyflwyno deunydd. |
| Sut mae dodrefn a chyfarpar yn cael eu dewis, eu haddasu a'u lleoli'n briodol i sicrhau priodoldeb ar gyfer disgyblion ag anableddau? |

| **Adran 2** |
| --- |
| Sut ydych chi'n sicrhau bod gan athrawon a chynorthwywyr dysgu yr hyfforddiant angenrheidiol i addysgu a chefnogi disgyblion ag anableddau? |
| Sut llwyddir i wneud y defnydd gorau o gynorthwywyr dysgu? |
| Sut llwyddir i sicrhau'r trefniant gorau yn eich ystafelloedd dosbarth ar gyfer disgyblion ag anableddau? |
| Sut mae gwersi yn ymatebol i amrywiaeth disgyblion? |
| Sut mae'r holl ddisgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn cerddoriaeth, drama a gweithgareddau corfforol? |
| A oes amrywiaeth o weithgareddau, yn cynnwys trafodaeth, cyflwyniad llafar, ysgrifennu, gwneud lluniau, datrys problemau, defnyddio'r llyfrgell, deunyddiau clyweled, tasgau ymarferol a thechnoleg gwybodaeth? |
| Pa ystyriaethau fydd staff yn eu gwneud o'r ymdrech feddyliol ychwanegol sy'n rhaid i rai disgyblion ag anableddau eu gwneud, er enghraifft darllen gwefusau? |
| A yw staff yn cydnabod ac yn caniatáu ar gyfer yr amser ychwanegol sydd ei angen ar rai disgyblion ag anableddau i ddefnyddio cyfarpar mewn gwaith ymarferol? |
| A yw staff yn darparu dulliau amgen o roi mynediad i brofiad (neu ddealltwriaeth) i ddisgyblion ag anableddau na allant gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau, er enghraifft, rhai mathau o ymarfer yn y gwersi addysg gorfforol neu i ddisgyblion â |

| |
|---|
| nam ar y clyw mewn gwersi cerddoriaeth? |
| Sut ydych chi'n gwybod bod mynediad ar gael i dechnoleg gwybodaeth a chymhorthion ychwanegol eraill sy'n briodol i'w anghenion i fyfyrwyr anabl? |
| A yw teithiau ysgol, yn cynnwys ymweliadau dramor yn hygyrch i bob disgybl beth bynnag fo'i gyrhaeddiad neu nam? |
| Pa mor aml mae staff, llywodraethwyr a disgyblion yn cael hyfforddiant ac addysg mewn materion yn ymwneud ag anabledd? |
| Sut ydych chi'n sicrhau bod pawb yn cael yr un croeso? |
| A yw'r disgwyliadau'n uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion? |
| Sut ydych chi'n sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi i'r un graddau â phawb arall? |
| Sut mae staff yn mynd ati i ddymchwel yr holl rwystrau i ddysgu a chyfranogaeth? |
| Sut ydych chi'n sicrhau bod yr holl staff, llywodraethwyr a disgyblion yn deall ac yn rhannu'r ethos o gynhwysiant? |

| **Adran 3** |
|---|
| Ydych chi'n darparu gwybodaeth ar ffurf electronig, print bras, tâp sain neu Braille ar gyfer disgyblion a darpar ddisgyblion sydd o bosibl yn gweld ffurflenni safonol a gwybodaeth ysgrifenedig yn anodd eu darllen a'u deall? |
| Sut gwyddoch chi fod gwybodaeth a gyflwynir i grwpiau yn cael ei chyflwyno bob amser mewn modd sy'n ystyriol o'r defnyddiwr i ddisgyblion â namau ar eu llygaid e.e. trwy ddarllen yn uchel yr hyn sydd ar sgrin taflunydd a disgrifio diagramau? |
| A ydych chi'n dilyn canllawiau'r RNIB o ran cynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformatau hygyrch? |
| Sut ydych chi'n sicrhau bod staff yn gyfarwydd â thechnoleg ac arferion gorau a ddatblygwyd i gynorthwyo pobl anabl? |
| Sut oedd y 'corff cyfrifol' wedi'i hysbysu o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf 2010? |
| A oes tystiolaeth o'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn holl gynlluniau'r ysgol? |
| Sut ydych chi'n gwybod bod gweithdrefn gwyno fewnol yr ysgol yn gweithio'n effeithiol? |